**Pwyllgor y Llywydd**
—
**Pwyllgor y Llywydd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPLI@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPLI
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLIC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLIC
0300 200 6565

Dyddiad: 7 Tachwedd 2023

Elan Closs Stephens
Cadeirydd
Comisiwn Etholiadol Cymru
Drwy e-bost

Pwnc: Tystiolaeth i Bwyllgor y Llywydd ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol 2024/25

Annwyl Elan,

Diolch yn fawr i chi am ddod i gyfarfod o Bwyllgor y Llywydd ar 7 Tachwedd 2023. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am y cyfle i holi'r Comisiwn Etholiadol am ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024/25 a'r amcangyfrif atodol ar gyfer 2023/24.

Edrychaf ymlaen at dderbyn y manylion pellach ar y costau a'r defnydd o'r swyddfa yng Nghaerdydd, ond fel blaenoriaeth, mae angen i'r Comisiwn edrych eto ar ei amcangyfrif a chanfod rhai arbedion.

Mae'r Pwyllgor wedi cael trafodaeth gychwynnol ynghylch eich amcangyfrif ac nid yw mewn sefyllfa i gefnogi cais y Comisiwn sy'n gofyn am gynnydd o 17 y cant, o gofio bod hyn yn sylweddol uwch na'r symiau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cyllid ar gyfer cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau bod y cyllid yn cael ei dynnu'n bennaf o Gronfa Gyfunol Cymru, fodd bynnag, fel y tynnodd y Cwnsler Cyffredinol sylw ato yn ei ymateb, roedd cyllid canlyniadol negyddol mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol yn Adolygiad o Wariant 2021. Canlyniad hyn yw bod y ffigur y gofynnwyd amdano ar gyfer 2024/25 yn uwch na'r cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwariant y Comisiwn, a phe bai'r Pwyllgor yn cytuno ar y ffigur y gofynnwyd amdano byddai'n golygu gostyngiad yn yr arian sydd ar gael i gyrff eraill a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn am amcangyfrif diwygiedig sy'n canfod arbedion effeithlonrwydd o tua 3 i 5 y cant a fyddai'n dal i gynrychioli cynnydd llawer uwch na'r cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol. Er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried yr amcangyfrif diwygiedig hwn, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 13 Tachwedd 2023.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Siaradwyr Tŷ'r Cyffredin a Senedd yr Alban, oherwydd y croesiad o ran y cyfrifoldeb dros gytuno ar gyllid rhwng gwahanol rannau'r Comisiwn.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS

Cadeirydd Pwyllgor y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.